Department for Environment Food & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb y llywodraeth a chrynodeb o ymatebion: Ymgynghoriad ar fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol

## Trefn orfodi newydd

3 Gorffennaf 2018

# © Hawlfraint y Goron 2018

Cewch ailddefnyddio’r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Fersiwn 3 Trwydded Agored y Llywodraeth. I weld y drwydded hon, ewch i https://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk



Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications



Dylai unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn gael ei anfon atom yn

consultation.coordinator@defra.gsi.gov.uk

www.gov.uk/defra

## Cynnwys

Cyflwyniad .......... 4

Ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad .......... 5

Y defnydd o fframweithiau rheoleiddio sydd ohoni .......... 6

Y drefn cosbau sifil arfaethedig .......... 6

Y trefnau gorfodi troseddol arfaethedig .......... 6

Y lefelau y dylid gosod cosbau .......... 7

Sylwadau pellach .......... 7

Y camau nesaf .......... 8

Atodiad A: Crynodeb o ymatebion .......... 9

Tabl 1: Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad fesul ardal .......... 9

Tabl 2: Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad fesul sector .......... 9

Atodiad B: Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd .......... 14

# Cyflwyniad

Ar hyn o bryd, mae Rheoliad Rhywogaethau Goresgynnol Estron yr UE ((EU) 1143/2014)[1] ("Rheoliad yr UE") yn gosod cyfyngiadau ar 49 o'r rhywogaethau estron goresgynnol sydd o'r pryder mwyaf yn Ewrop. Gwnaeth ymgynghoriad ar y cyd rhwng DEFRA a Llywodraeth Cymru, a ddaeth i ben ar 3 Ebrill 2018, osod cynigion ar gyfer gorfodi'r cyfyngiadau hynny drwy ddefnyddio cosbau sifil a throseddol.

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio safbwyntiau ar gosbau arfaethedig mewn perthynas â chyfyngiadau a amlinellir yn Erthygl 7 o Reoliad yr UE, sy'n gwahardd gwneud y canlynol yn fwriadol:

(a) mewnforio
(b) cadw
(c) bridio
(d) cludo
(e) gwerthu
(f) defnyddio neu gyfnewid
(g) caniatáu i atgenhedlu, tyfu neu drin
(h) rhyddhau i'r amgylchedd

unrhyw sbesimenau byw o'r rhywogaethau ar restr yr Undeb Ewropeaidd.

Roedd hefyd yn ceisio safbwyntiau ar gosbau mewn perthynas â thrwyddedau sy'n galluogi i'r cyfyngiadau uchod gael eu llacio. Roedd y cosbau arfaethedig yn ymwneud â'r canlynol:

- Gwneud datganiad anwir er mwyn cael trwydded
- Ffugio neu newid trwydded neu ddefnyddio sbesimen at ddiben nad yw'n unol â'r drwydded
- Mynd yn groes i amod neu ofyniad trwydded yn fwriadol
- Rhwystro swyddog gorfodi awdurdodedig yn fwriadol
- Ffugio bod yn swyddog gorfodi gyda'r nod o dwyllo
- Ceisio cyflawni unrhyw un o'r troseddau uchod

Gofyniad Rheoliad yr UE yw bod rhaid i gosbau fod yn effeithiol, yn gymesurol ac yn anghymhellol, a gallent gynnwys, er enghraifft, dirwyon, atafael y rhywogaethau, ac ataliad dros dro neu ddiddymiad o drwydded ar unwaith.

Gwnaethom ofyn am ymatebion rhanddeiliaid i'r cwestiynau canlynol:

- C1. Pan fo rhywogaeth sy'n peri pryder i'r Undeb Ewropeaidd eisoes yn ddarostyngedig i fesurau rheoli trwy fframwaith sydd ohoni, a ydych yn ystyried y dylai barhau i gael ei rheoli dan y fframwaith hwnnw ar gyfer cyfyngiadau sy'n cael eu cynnwys yn y Rheoliad?

[1] Rheoliad (UE) Rhif 1143/2014 ar atal a rheoli cyflwyniad a lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol

- C2. A ydych yn fodlon ar y drefn cosbau sifil arfaethedig, gan gynnwys y lefelau ar gyfer cosbau ariannol penodedig a safonau profi? Pa newidiadau, os unrhyw rai, y byddech yn eu cynnig? Eglurwch eich rhesymau.
- C3. A ydych yn ystyried bod toriadau o'r cyfyngiadau hyn yn cyfiawnhau creu troseddau newydd neu a ddylem ni ddibynnu ar gosbau sifil a throseddau sydd ohoni? Eglurwch y rhesymau dros eich ateb.
- C4. A ydych yn ystyried bod toriadau mewn perthynas â'r cynllun trwyddedu'n cyfiawnhau creu troseddau newydd neu a ddylem ni ddibynnu'n unig ar gosbau sifil? Eglurwch y rhesymau dros eich ateb.
- C5. Os caiff troseddau newydd eu creu, a ydych yn credu y dylai'r cosbau fod ar yr un lefel â'r cosbau hynny ar gyfer troseddau o dan Adran 14 neu 14ZA o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981?  Eglurwch y rhesymau dros eich ateb.
- C6. A oes gennych unrhyw safbwyntiau pellach ar y cynigion?

Derbyniwyd 128 o ymatebion o safbwynt amrediad eang o fuddiannau. Cafwyd 42 o'r rhai hynny gan unigolion a oedd yn amlwg yn cynrychioli sefydliadau, ac 86 gan unigolion a oedd yn cyflwyno eu safbwyntiau eu hunain. Atodir rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd yn Atodiad B. Cefnogwyd ymateb Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad gan ddeg sefydliad pellach, a ofynnodd i'r ymateb gael ei drin fel un gan bob un o'r sefydliadau a enwir.

Codwyd nifer o bryderon gan randdeiliaid ynghylch eglurder gofynion Rheoliad yr UE. Cynhyrchwyd rhestr o gwestiynau cyffredin ar gyfer rhanddeiliaid yn y DU a chaiff y ddogfen hon ei diweddaru a'i chadw o dan adolygiad wedi hynny, er mwyn mynd i'r afael â phryderon cyffredin y cyfeirir atynt yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae crynodeb llawn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'i gynnwys yn Atodiad A o'r ddogfen hon, a cheir rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd yn Atodiad B.

# Ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad

Mae DEFRA a Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ac maent yn ddiolchgar i'r rhai hynny a ymatebodd.

Roedd y safbwyntiau a ddarparwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn ymwneud â phedair prif agwedd ar y cynnig:

- Y defnydd o'r fframweithiau rheoleiddio sydd ohoni
- Y drefn cosbau sifil arfaethedig
- Y trefnau gorfodi troseddol arfaethedig
- Y lefelau y dylid gosod cosbau

## Y defnydd o fframweithiau rheoleiddio sydd ohoni

O'r rhai hynny a ymatebodd yn uniongyrchol i Gwestiwn 1, roedd tua 60% yn teimlo y dylid parhau i reoli rhywogaethau sy'n cael eu cynnwys yn y Rheoliad trwy fesurau cyfredol lle maent eisoes yn bodoli. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai hynny nad oeddent yn ystyried y dylid defnyddio'r rheolau cyfredol yn teimlo y byddai system hollgynhwysfawr newydd yn gwella dealltwriaeth a chysondeb o ran dull a gorfodi. Dywedodd nifer o ymatebwyr fod angen cynnal dadansoddiad pellach o'r fframweithiau rheoleiddio sydd ohoni.

Ar sail yr ymateb hwn, barn y llywodraeth yw y dylid defnyddio'r fframweithiau rheoleiddio sydd ohoni lle bo modd. Lle bo deddfwriaeth gyfredol y DU eisoes yn cynnwys cyfyngiadau yn y Rheoliad, yna dylid ei defnyddio lle mae'n gwneud synnwyr i wneud hynny. Fodd bynnag, mae'r llywodraethau yn cydnabod efallai y bydd angen diwygio deddfwriaeth gyfredol, neu weithredu fframwaith newydd, i wella cysondeb o ran gorfodi.

## Y drefn cosbau sifil arfaethedig

O'r rhai hynny a ymatebodd yn uniongyrchol i Gwestiwn 2, roedd tua dwy ran o dair ohonynt yn fodlon ar y drefn cosbau sifil arfaethedig, tra oedd tua un rhan o dair ohonynt yn nodi nad oeddent. O'r rhai hynny nad oeddent yn fodlon, dywedodd hanner ohonynt fod angen cosbau uwch neu sancsiynau (troseddol) cryfach. Roedd yr arsylwad mwyaf cyffredin ymhlith y rhai a oedd yn cefnogi'r cynigion yn awgrymu bod angen canllawiau naill ai ar gyfer swyddogion gorfodi neu ar gyfer y rhai y mae'n debygol y bydd y sancsiynau yn effeithio arnynt er mwyn helpu cysondeb a dealltwriaeth. Dywedodd nifer o ymatebwyr y dylid ystyried defnyddio sancsiynau troseddol yn y lle cyntaf bob amser fel mater o drefn lle bo gweithgareddau anghyfreithlon difrifol a pharhaus yn digwydd. Roedd ymatebwyr yn cefnogi amrywiaeth o opsiynau yn y drefn cosbau sifil i adlewyrchu difrifoldeb ac amlder y toriad cyn bwrw ati gydag achos troseddol.

Yn gyffredinol, roedd tua 82% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r drefn arfaethedig, neu roeddent am i ddirwyon fod yn uwch. Mae'r llywodraethau yn bwriadu gweithredu'r cynllun cosb sifil arfaethedig. Fodd bynnag, byddwn yn archwilio ymhellach y posibiliad o osod dirwyon mwy ar gyfer troseddwyr parhaus, neu ar gyfer achosion lle cafwyd effaith fawr ar yr amgylchedd. Byddwn hefyd yn ystyried datblygu canllawiau ar gyfer swyddogion gorfodi, fel bod modd datblygu dull mwy cyson o reoleiddio rhywogaethau goresgynnol estron yng Nghymru a Lloegr.

## Y trefnau gorfodi troseddol arfaethedig

Rhannwyd yr agwedd hon ar yr ymgynghoriad dros Gwestiwn 3 a Chwestiwn 4. O'r 110 o ymatebion a gafwyd yn uniongyrchol i Gwestiwn 3, roedd y safbwyntiau wedi'u rhannu'n hanner a hanner fwy neu lai rhwng y rhai hynny a oedd yn cefnogi sancsiynau troseddol newydd a'r rhai hynny a oedd yn cefnogi sancsiynau sifil newydd a mesurau troseddol cyfredol lle maent eisoes yn bodoli. Mewn ymateb i Gwestiwn 4, roedd 60% o'r ymatebwyr yn teimlo bod gwerth i sancsiynau troseddol newydd er mwyn gorfodi'r cynllun trwyddedu.

Dylid nodi bod nifer o'r grwpiau mawr o randdeiliaid yn dadlau'n uchel o blaid gosod sancsiynau troseddol newydd. Rydym wedi rhoi ystyriaeth bellach i safbwyntiau'r ymatebwyr a oedd yn cynrychioli grwpiau mwy, neu a oedd wedi cyflwyno tystiolaeth uniongyrchol i gefnogi eu hymatebion. Bydd y llywodraethau felly'n ystyried dichonoldeb creu troseddau newydd er mwyn gorfodi'r Rheoliad, a fydd yn mynd ochr yn ochr â'r drefn cosbau sifil arfaethedig. Byddai hyn yn caniatáu dull mwy hyblyg o ran gorfodi, gyda thoriadau difrifol/parhaus yn unig o'r rheolau yn cael eu trin drwy ddefnyddio achosion troseddol.

Fodd bynnag, mae ymatebion i Gwestiwn 1 yn nodi y dylai unrhyw droseddau newydd ganolbwyntio ar gyfyngiadau nad ydynt eisoes yn cael eu trin o dan ddeddfwriaeth gyfredol, lle bo hynny'n bosibl. Yn ogystal, byddwn yn ystyried datblygu canllawiau manwl ar gyfer cyrff gorfodi a'r cyhoedd, er mwyn atal unrhyw ddeddfwriaeth newydd rhag cosbi troseddau anfwriadol/mân yn ormodol.

## Y lefelau y dylid gosod cosbau

Yn olaf, mewn ymateb i Gwestiwn 5, roedd tua 66% o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai unrhyw gosbau newydd fod yr un peth neu'n uwch na chosbau sydd eisoes wedi'u gosod yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd).

Mae'r llywodraethau yn dymuno pwysleisio'r risg ddifrifol y mae rhywogaethau estron goresgynnol yn eu hachosi i'r amgylchedd, yn ogystal â'r pwysau economaidd y maent yn eu rhoi ar y DU. Byddwn felly'n ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, ac yn cynnal adolygiad pellach o lefel y cosbau cyn llunio drafft o ddeddfwriaeth gorfodi.

## Sylwadau pellach

Hoffem ddiolch i'r ymatebwyr am eu mewnbwn i'r ymgynghoriad hwn. Gwnaed ymdrech sylweddol gan nifer o grwpiau er mwyn sicrhau bod eu safbwyntiau am yr ymgynghoriad yn eglur. Un grŵp o'r fath oedd cymdeithasau cadw gwenyn. Hoffem roi sicrwydd i'r gwenynwyr nad yw'r drefn orfodi hon, mewn unrhyw ffordd, wedi'i dylunio i rwystro ymdrechion o ran diogelu poblogaethau o wenyn rhag plâu goresgynnol megis y wenynen feirch o Asia (*Vespa velutina*).Hoffai'r llywodraethau gydnabod pa mor effro y mae'r gymuned cadw gwenyn yn erbyn y bygythiad hwn, ac rydym o'r farn y byddai trefn orfodi newydd yn helpu i ddiogelu peillwyr y DU ymhellach rhag bygythiad rhywogaethau goresgynnol.

Gwnaed sylwadau ynghylch y defnydd o'r geiriau 'bwriad' a 'caniatáu i dyfu' yn y Rheoliad. Hoffem bwysleisio bod y Rheoliad wedi'i gynllunio i amddiffyn yr amgylchedd, ac nid er mwyn cosbi perchnogion tir nag unigolion preifat heb achos dyledus. Mae'r drefn orfodi arfaethedig wedi'i chynllunio i gyd-fynd ag ysbryd y Rheoliad, a byddwn felly'n ymgysylltu â chyrff gorfodi i ddylunio canllawiau clir o ran pryd mae angen cymryd camau gorfodi.

Rydym yn credu'n gryf y dylai camau gorfodi fod yn gymesur â pha mor ddifrifol y mae'r drosedd, beth oedd bwriad y drosedd, y risg a achosir, a difrifoldeb unrhyw effaith economaidd neu amgylcheddol gysylltiedig. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn wedi helpu i ddatblygu ein dealltwriaeth ymhellach o unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen yn y dyfodol. Mae'r

ddealltwriaeth hon wedi ein harwain at ddatblygu nifer o gamau pellach a fydd yn ein galluogi i fynd i'r afael â'r pwyntiau sy'n codi o'r ymgynghoriad.

# Y camau nesaf

- Byddwn yn diweddaru'r ddogfen yn cynnwys rhestr o gwestiynau cyffredin er mwyn mynd i'r afael â phryderon cyffredin y cyfeirir atynt yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad – yn benodol, y rhai hynny sy'n trafod materion sy'n ymwneud â bwriad, a gofalu am anifeiliaid cydymaith/achub unwaith y bydd y drefn orfodi hon yn dod i rym.
- Byddwn yn cynnal dadansoddiad pellach o'r fframweithiau rheoleiddio sydd ohoni er mwyn asesu p'un ai fframweithiau newydd neu rai presennol fyddai'r dulliau gorfodi mwyaf effeithiol, effeithlon a thryloyw.
- Byddwn yn datblygu sancsiynau newydd i gwmpasu'r cyfyngiadau a nodir yn y Rheoliad.
- Byddwn yn cynnal adolygiad pellach o'r cosbau sy'n berthnasol i achosion o dorri'r cyfyngiadau hyn.
- Byddwn yn gofyn i'r rheoleiddwyr greu canllawiau i roi eglurder ar droseddau y gellir eu cymryd drwy'r llwybr sifil a'r rhai a all effeithio ar achosion troseddol, a disgrifio pryd y bodlonir y baich profi.
- Byddwn yn adolygu ffyrdd y gallwn weithio'n agosach gyda grwpiau o randdeiliaid allweddol, megis cyrff masnachu, perchnogion darnau mawr o dir a grwpiau cadwraeth. Bydd mewnbwn pellach gan y grwpiau hyn o fudd i'n dull o orfodi. Bydd hefyd yn helpu wrth ddatblygu ein strategaeth tuag at gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch y drefn orfodi newydd.

# Atodiad A: Crynodeb o ymatebion

### Tabl 1: Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad fesul ardal

| Ardal | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Lloegr | 87 |
| Cymru | 18 |
| Cymru a Lloegr | 7 |
| Ni nodwyd ardal | 16 |

### Tabl 2: Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad fesul sector

| Buddiant (sefydliad neu unigolyn) | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Cynghorwyr/rheoleiddwyr | 3 |
| Llesiant anifeiliaid | 11 |
| Gwenynwyr | 17 |
| Cadwraeth | 15 |
| Buddiannau pysgota (masnachol a hamdden) | 6 |
| Ceidwaid (diddordeb a masnach) | 15 |
| Perchnogion/rheolwyr tir | 4 |
| Arall | 3 |
| Materion penodol ynghylch planhigion goresgynnol a garddwriaeth | 10 |
| Porthladdoedd | 3 |
| Trenau | 1 |

| | |
|---|---|
| Twristiaeth a hamdden (dŵr) | 7 |
| Ymchwil | 1 |
| Ni nodwyd maes penodol o fuddiant | 24 |
| Cwmnïau dŵr ac unigolion sydd â diddordeb yn y diwydiant dŵr | 8 |

## C1. Pan fo rhywogaeth sy'n peri pryder i'r Undeb Ewropeaidd eisoes yn ddarostyngedig i fesurau rheoli trwy fframwaith sydd ohoni, a ydych yn ystyried y dylai barhau i gael ei rheoli dan y fframwaith hwnnw ar gyfer cyfyngiadau sy'n cael eu cynnwys yn y Rheoliad?

Cafwyd 103 o ymatebion i'r cwestiwn hwn yn uniongyrchol. Ni roddwyd ateb gan 25 o bobl, neu rhoddwyd ateb ganddynt nad oedd yn ymwneud â'r cwestiwn a ofynnwyd.

Roedd 61 o ymatebwyr yn teimlo, lle caiff rhywogaeth sy'n peri pryder i'r Undeb Ewropeaidd ei rheoli dan y fframwaith sydd ohoni, y dylid parhau i’w rheoli o dan y fframwaith hwnnw ar gyfer cyfyngiadau sy'n cael eu cynnwys yn y Rheoliad. Roedd 43 o ymatebwyr yn teimlo na ddylid parhau i reoli rhywogaethau o dan y trefnau sydd ohoni. O'r 43 o ymatebion hyn, daeth bron hanner (20) ohonynt gan y rhai a oedd yn cynrychioli sefydliadau. O'r 61 o ymatebwyr a oedd yn teimlo y dylai mesurau rheoli cyfredol barhau, daeth ychydig dros chwarter (16) o'r ymatebion gan rai a oedd yn cynrychioli sefydliadau.

O'r rhai hynny nad oeddent eisiau i fesurau cyfredol barhau, roedd y rhan fwyaf (81%) yn teimlo bod hyn oherwydd y gellid gwella eglurder a chysondeb, neu y gellid gwella gwaith gorfodi, drwy fframwaith hollgynhwysfwr newydd.

O'r rhai hynny a oedd yn teimlo y dylid parhau i ddefnyddio'r mesurau sydd ohoni, roedd ychydig dros hanner (32) o'r farn fod y rheolau cyfredol yn ddigon, neu y byddent yn ddigonol pe baent yn cael eu gorfodi'n gywir. Roedd saith o ymatebwyr ychwanegol yn teimlo bod y rheolau'n ddigon am y tro, ond y gellid eu gwella yn y dyfodol. Roedd 11 yn pryderu y gallai newidiadau i'r rheolau gael goblygiadau negyddol, megis effaith ar fusnesau, cynnydd o ran cosbau, effaith ar rywogaethau penodol megis adsefydlu'r wiwer lwyd, neu arwain at golli pa mor gyfarwydd y mae pobl â'r ddeddfwriaeth.

Rydym yn croesawu'r dull a amlinellir o ran cosbau sifil. Mae'n bwysig fod rheoleiddwyr yn gallu gwahaniaethu rhwng y rhai hynny sydd yn amlwg yn anwybyddu’r gyfraith, a'r rheiny sydd â dull da yn gyffredinol. Dylai defnyddio cyngor, canllawiau a llythyrau rhybuddio fod yn rhan o ddull rheoleiddiwr o fynd i'r afael â'r risg a achosir gan rywogaethau estron goresgynnol. Fodd bynnag, mae angen i’r defnydd hwn fod yn gymesur â'r difrifoldeb neu'r risg. Rydym o'r farn y dylid defnyddio dulliau gorfodi yn syth lle gallai achos o dorri'r Rheoliad arwain at effeithiau economaidd neu amgylcheddol difrifol.

## C2. A ydych yn fodlon ar y drefn cosbau sifil arfaethedig, gan gynnwys y lefelau ar gyfer cosbau ariannol penodedig a safonau profi? Pa newidiadau, os unrhyw rai, y byddech yn eu cynnig? Eglurwch eich rhesymau.

Cafwyd 104 o ymatebion i'r cwestiwn hwn yn uniongyrchol. Ni roddwyd ymateb i Gwestiwn 2 gan 24 o bobl.

Nododd 67 o ymatebwyr eu bod yn fodlon ar y trefnau cosbau sifil arfaethedig. Nododd 36 ohonynt nad oeddent yn fodlon ar y cynigion. Roedd safbwyntiau cymysg gan un sefydliad. O'r 67 o ymatebwyr a oedd yn fodlon, daeth ychydig dros draean (25) o'r ymatebion gan y rhai hynny a oedd yn cynrychioli sefydliadau. O'r 36 o ymatebwyr nad oeddent yn fodlon ar y cynigion, daeth ychydig o dan traean (11) o'r ymatebion gan y rhai hynny a oedd yn cynrychioli sefydliadau.

Ni wnaeth ychydig o dan hanner (31) o'r 67 a oedd yn fodlon ar y cynigion o dan Gwestiwn 2 sylwadau pellach o ran y cwestiwn hwn. Nododd 13 y dylid drafftio canllawiau, naill ai ar gyfer swyddogion gorfodi neu ar gyfer y rhai y mae'n debygol y bydd y sancsiynau yn effeithio arnynt, er mwyn helpu cysondeb a dealltwriaeth. Nododd 15 o ymatebwyr ychwanegol fod angen sancsiynau troseddol uwch yn ogystal â'r sancsiynau sifil arfaethedig. Gwnaed nifer fach o sylwadau (saith) yn ymwneud â'r canlynol: rhoi adnoddau priodol i reoleiddwyr, arolygiadau gwell mewn mannau cyrraedd (mewnforion), cosbau uwch ar gyfer gwerthu a chadw, ac eithriadau ynghylch adsefydlu rhywogaethau goresgynnol sydd wedi'u hanafu.

O'r rhai hynny nad oeddent yn fodlon ar y cynigion, dywedodd hanner ohonynt fod angen cosbau uwch neu sancsiynau (troseddol) cryfach. Roedd pedwar o bobl ychwanegol yn teimlo na ddylid cynnig gostyngiad ar gyfer taliadau cynnar. Roedd ychydig o dan chwarter o'r 36 o ymatebwyr yn teimlo bod y cynigion yn rhy llym. Gwnaed nifer fach o sylwadau (wyth) yn ymwneud â'r canlynol: mesurau sydd ohoni nad ydynt yn cael eu gorfodi'n gywir, pryderon ynghylch safonau profi, dylai rheoleiddwyr allu adennill costau, ac nad oedd y cynigion yn gwneud digon mewn pryd ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol cyffredin.

## C3. A ydych yn ystyried bod toriadau o'r cyfyngiadau hyn yn cyfiawnhau creu troseddau newydd neu a ddylem ni ddibynnu ar gosbau sifil a throseddau sydd ohoni? Eglurwch y rhesymau dros eich ateb.

Cafwyd 110 o ymatebion i'r cwestiwn hwn yn uniongyrchol. Roedd 49 o ymatebwyr yn teimlo bod toriadau o'r cyfyngiadau hyn a nodir yn y Rheoliad yn cyfiawnhau creu troseddau newydd. Roedd 52 o ymatebwyr yn teimlo nad oedd gwerth creu troseddau newydd er mwyn gorfodi'r cyfyngiadau a nodir yn Rheoliad yr UE, ond dylid dibynnu yn hytrach ar sancsiynau sifil newydd a'r mesurau troseddol sydd ohoni lle maent yn bodoli.

O'r 52 o ymatebwyr a oedd yn erbyn creu sancsiynau troseddol newydd, daeth 13 o'r ymatebion gan y rhai hynny a oedd yn cynrychioli sefydliadau. O'r 47 o ymatebwyr a oedd yn teimlo bod angen creu troseddau newydd, daeth 27 ohonynt gan sefydliadau. Nododd 13 o ymatebwyr yn gyffredinol eu bod yn teimlo bod angen cynnal adolygiad pellach o'r ddeddfwriaeth arfaethedig a'r ddeddfwriaeth sydd ohoni.

O'r ymatebwyr hynny a oedd yn teimlo bod angen sancsiynau troseddol newydd, roedd 81% yn teimlo bod angen sancsiynau troseddol cryfach. Codwyd nifer o wahanol resymau dros yr angen am sancsiynau cryfach. Un o'r prif bwyntiau oedd bod sancsiynau troseddol ar gael ar gyfer deddfwriaeth bioddiogelwch arall, ac na fyddai'n gyson trin y gwaith o reoli rhywogaethau estron goresgynnol yn wahanol ac na fyddai'n amlygu'n gywir y risgiau difrifol y maen nhw'n eu peri i'r amgylchedd. Dywedodd eraill fod angen ataliad cryfach, oherwydd bod y gost o geisio rhwystro rhywogaethau goresgynnol rhag lledaenu'n llawer mwy cost effeithiol na cheisio cael gwared arnynt unwaith eu bod nhw wedi sefydlu. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn teimlo, mewn achosion o weithgarwch anghyfreithlon difrifol a/neu gyfundrefnol, neu lle bo rhywun yn aildroseddu, byddai'n briodol fod gan reoleiddwyr yr opsiwn o droi at sancsiynau troseddol.

Roedd ymatebwyr yn y grŵp hwn yn teimlo nad oedd sancsiynau sifil yn ddigon o ataliad i roi terfyn ar droseddwyr cyfundrefnol/parhaus. Nodwyd bod creu sancsiynau troseddol mewn meysydd eraill o ddeddfwriaeth bywyd gwyllt wedi profi'n rhwystr mawr rhag atal camau gweithredu cyfyngedig. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn y grŵp hwn hefyd yn cydnabod y byddai dal angen rhoi ystod o sancsiynau sifil ar waith, fel bod modd ymdrin â thoriadau anfwriadol heb fod angen cynnal ymchwiliad troseddol.

O'r ymatebwyr hynny a oedd yn teimlo nad oedd angen sancsiynau troseddol newydd, roedd 69% o'r farn fod hyn oherwydd bod y ddeddfwriaeth sydd ohoni (Deddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979, a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981) yn ddigonol. Nododd ymatebwyr hefyd eu bod yn teimlo y byddai creu sancsiynau troseddol yn arwain at achosion o gosbi toriadau anfwriadol heb fod angen. Gwnaeth yr ymatebwyr hyn dynnu sylw at y diffyg camau gorfodi ymddangosiadol tuag at ddeddfwriaeth bywyd gwyllt, ac nid oeddent yn credu y byddai troseddau ychwanegol yn gwneud y tro heb gamau gorfodi priodol.

## C4. A ydych yn ystyried bod toriadau mewn perthynas â'r cynllun trwyddedu'n cyfiawnhau creu troseddau newydd neu a ddylem ni ddibynnu'n unig ar gosbau sifil? Eglurwch y rhesymau dros eich ateb.

Cafwyd 86 o ymatebion i'r cwestiwn hwn yn uniongyrchol. Roedd 52 o ymatebwyr yn teimlo bod toriadau mewn perthynas â'r cynllun trwyddedu'n cyfiawnhau creu troseddau newydd. Roedd 32 o ymatebwyr yn teimlo nad oedd gwerth creu troseddau newydd ar gyfer toriadau mewn perthynas â'r cynllun trwyddedu. Nododd dau o ymatebwyr eu bod yn ansicr ynglŷn â'u barn am y cwestiwn hwn.

O'r 32 o ymatebwyr nad oeddent yn teimlo bod gwerth creu troseddau newydd, daeth pump o ymatebion gan y rhai hynny a oedd yn cynrychioli sefydliadau. O'r 52 o ymatebwyr a oedd yn teimlo bod gwerth creu sancsiynau troseddol newydd, daeth 23 o ymatebion gan rai a oedd yn siarad ar ran sefydliadau. Ymhlith y 23 o ymatebion hynny, roedd pedwar sefydliad a oedd wedi nodi yng Nghwestiwn 3 cyn hyn nad oeddent yn teimlo bod gwerth i sancsiynau troseddol, ond, er hynny, roeddent yn teimlo bod angen opsiynau gorfodi troseddol mewn achosion o dorri'r cynllun trwyddedu.

O’r holl ymatebion a gafwyd i Gwestiwn 4, roedd 47% yn galw am yr angen i greu sancsiynau troseddol cryfach. Roedd 26% o'r ymatebion yn credu y byddai cynllun cosb sifil yn ffordd

ddigonol o orfodi. Yn ogystal, gwnaeth 22% o'r ymatebion dynnu sylw at y ffaith na fyddai cynllun gorfodi sy'n seiliedig ar gosbau sifil yn unig yn ataliad priodol yn eu barn nhw.

Codwyd nifer o bwyntiau ychwanegol gan ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Codwyd yr angen i addysgu'r cyhoedd ynghylch unrhyw gynllun a weithredir, oherwydd roedd yr ymatebwyr yn credu nad oedd gwybodaeth y cyhoedd ynghylch rhywogaethau estron goresgynnol yn ddigon eang, ac roeddent yn poeni y byddai pobl yn torri unrhyw drefn orfodi oherwydd diffyg addysg. Ar ben hynny, gwnaed yn glir gan rai ymatebwyr, gan gynnwys y rhai hynny a oedd o blaid sancsiynau troseddol, nad oeddent yn dymuno gweld achosion troseddol yn cael eu cymryd yn erbyn toriadau anfwriadol, ac y dylai unrhyw drefn orfodi hefyd gynnwys amrediad o gosbau sifil, wedi'u hategu gan sancsiynau troseddol y gellid eu defnyddio yn erbyn y troseddwyr gwaethaf.

## C5. Os caiff troseddau newydd eu creu, a ydych yn credu y dylai'r cosbau fod ar yr un lefel â'r cosbau hynny ar gyfer troseddau o dan Adran 14 neu 14ZA o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981?Eglurwch y rhesymau dros eich ateb.

Cafwyd 86 o ymatebion i'r cwestiwn hwn yn uniongyrchol. O'r ymatebion hyn, mynegodd 41 o ymatebwyr eu bod yn teimlo y dylid gosod cosbau ar yr un lefel, nododd 33 y dylid gosod cosbau ar lefel wahanol, a dywedodd 12 nad oedd angen unrhyw gosbau troseddol newydd – felly nad oedd lefelau cysylltiedig o ran cosbau'n berthnasol. Dylid nodi na wnaeth is-set fawr o ymatebion roi rheswm dros eu barn – dim ond nodi eu bod yn teimlo'n gryf o blaid un cyfeiriad penodol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

O'r ymatebwyr a nododd y dylai cosbau fod yn wahanol i'r troseddau hynny o dan Adran 14 ac 14ZA Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, nododd dau ohonynt eu bod yn credu y dylai cosbau am unrhyw droseddau newydd fod yn is, roedd 16 yn credu y dylent fod yn uwch, a dywedodd 12 o ymatebwyr y dylid amrywio cosbau er mwyn darparu ar gyfer difrifoldeb y toriad.

O'r rhai hynny a oedd yn teimlo y dylai unrhyw gosbau newydd fod yr un peth â'r rhai o dan Adran 14 ac 14ZA Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, nododd y rhan fwyaf o ymatebwyr eu bod yn credu bod y cosbau hyn eisoes wedi'u gosod ar lefel a oedd yn addas. Nododd rhai yn y grŵp hwn yr angen am gywerthwedd ar draws troseddau tebyg, ac mai'r dull mwyaf priodol fyddai gosod yr holl gosbau ar yr un lefel.

O'r rhai hynny a oedd yn teimlo y dylai'r cosbau fod yn wahanol i'r rhai o dan Adran 14 ac 14ZA Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, nododd y rhan fwyaf ohonynt y dylai cosbau naill ai fod yn uwch neu y dylai fod modd eu hamrywio – gan y byddai hyn yn amlygu'r risg y mae rhywogaethau estron goresgynnol yn ei pheri i'r amgylchedd. Nododd y grŵp hwn hefyd y dylai cosbau fod yn gymesur â'r toriad ei hun, a phwysleisiodd rhan fach o'r grŵp hwn y dylai cosbau fod yn rhwystr sylweddol rhag atal toriadau bwriadol.

Nododd y rhan fwyaf o ymatebwyr a oedd yn teimlo nad oedd angen creu troseddau newydd fod cosbau sifil yn fwy priodol na chosbau troseddol o ran gorfodi'r Rheoliad.

Yn ogystal, codwyd pryderon ar draws pob grŵp o ran gorfodi opsiynau gorfodi newydd a rhai sy'n bodoli eisoes. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn, ni waeth pa opsiwn a ddewiswyd, na fyddai unrhyw drefn yn llwyddiannus heb ei gorfodi'n briodol, ac felly roeddent am dynnu sylw at y mater hwn yn ystod yr ymgynghoriad.

### C6. A oes gennych unrhyw safbwyntiau pellach ar y cynigion?

Cafwyd 102 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Dyma gwestiwn cyffredinol a gynlluniwyd i gasglu unrhyw wybodaeth ychwanegol. Roedd ymatebion yn eang ac yn ymdrin â nifer o bynciau a safbwyntiau. Roedd rhai yn codi pwyntiau ychwanegol nad oeddent wedi'u cynnwys yng nghwmpas y cwestiynau blaenorol, ac roedd eraill yn ailadrodd datganiadau a wnaed mewn cwestiynau blaenorol. Bu i nifer o ymatebion wneud pwyntiau yr ydym wedi eu cydnabod ond sydd y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn. Rydym wedi ymdrin â nifer o'r themâu allweddol o dan 'sylwadau pellach' a 'chamau nesaf' ar dudalen 7 ac 8 o'r ddogfen hon.

# Atodiad B: Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd

Ffederasiwn Alwminiwm

Anglian Water

Cymdeithas Ffermwyr Gwenyn

Partneriaethau Dalgylch – Dorset

Canolfan Amaethyddiaeth a Biowyddorau Rhyngwladol (CABI)

Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (CEFAS)

Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad

Cynghrair Cefn Gwlad

Undeb Amaethwyr Cymru

Gwasanaeth Meddygol Rheilffordd Ffestiniog

Ymddiriedolaeth Cadwraeth Helwriaeth a Bywyd Gwyllt (GWCT)

Awdurdod Harwich Haven

Partneriaeth Dalgylch Ynys Wyth

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ac Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru

Network Rail

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

Awdurdod Pysgodfeydd a Chadwraeth Glannau Gogledd-orllewin Lloegr (NWIFCA)

Ornamental Aquatic Trade Association (OATA)

Peel Ports

Pupils 2 Parliament

Cymdeithas Gwenynwyr Gwlad yr Haf

South West Water

Glandŵr Cymru

Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt

Cymdeithas Gwenynwyr Torbay Bee ac Asian Hornet Action

Grŵp Porthladdoedd Mawr y DU

Urban Squirrels

United Utilities

Wessex Water

Yorkshire Water

Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad

Roedd Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad hefyd yn ymateb ar ran:

A Rocha UK

Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid

Ymddiriedolaeth Genweirio

Buglife

Plantlife

Ymddiriedolaeth Afonydd

Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)

RSPCA

Cadwraeth Eog a Brithyll

Coed Cadw